ATODLEN 1

GWERTHOEDD TERFYN, GODDEFIANNAU, ETC.

# RHAN I

## SYLFFWR DEUOCSID (SO2)

### Gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid

**1.1**

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant(**1**)* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| **1.** Terfyn gwerth fesul-awr ar gyfer diogelu iechyd pobl | 1 awr | 350 $\mu g/m^3$, y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 24 gwaith y flwyddyn galendr | 60 $\mu g/m^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canrannau blynyddol cyfartal nes cyrraedd 0 $\mu g/m^3$ erbyn 1 Ionawr 2005 | 1 Ionawr 2005 |
| **2.** Gwerth terfyn dyddiol ar gyfer diogelu iechyd pobl | 24 awr | 125 $\mu g/m^3$, y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith y flwyddyn galendr | Dim un | 1 Ionawr 2005 |
| **3.** Gwerth terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau | Y flwyddyn galendr a'r gaeaf (1 Hydref i 31 Mawrth) | 20 $\mu g/m^3$ | Dim un | |

### Trothwy rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid

**1.2** 500 $\mu g/m^3$ wedi'i fesur dros dair awr o'r bron mewn mannau sy'n gynrychioliadol o ansawdd yr aer dros o leiaf 100 $km^2$ neu barth neu grynhoad cyfan, p'un bynnag yw'r lleiaf.

### Isafswm y manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd pan eir yn uwch na'r trothwy rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid

**1.3** Dylai'r manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd gynnwys o leiaf :

(**1**) Mae'r ffigurau ar gyfer Goddefiannau ar gyfer pob un o'r llygrynnau perthnasol a roddir yn yr Atodlen hon wedi'u cyfrifo o'r rhai a roddir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 99/30/EC ac Atodiadau I a II o Gyfarwyddeb 2000/69/EC.

- dyddiad, awr a lle y digwyddiad a'r rhesymau drosto, os ydynt yn hysbys;
- unrhyw ragolygon ar gyfer:
  - newidiadau mewn crynodiad (gwella, sefydlogi, neu ddirywio), ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau hynny,
  - yr ardal ddaearyddol o dan sylw,
  - parhad y digwyddiad;
  - y math o boblogaeth a allai fod yn sensitif i'r digwyddiad;
  - rhagofalon sydd i'w cymryd gan y boblogaeth sensitif o dan sylw.